**ADRODDIAD I'R CABINET**
23 Mehefin 2015

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards

**Pwnc:** Cynllun Strategol 2015-17

**Swyddog cyswllt:** Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad

---

**Y penderfyniad a geisir**

Argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn mabwysiadu Cynllun Strategol 2015-17

---

**Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol.

---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2013, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Strategol ar gyfer 2013–17. Prif bwrpas y Cynllun Strategol yw gosod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013–17, ac fe'i adolygir yn flynyddol.

1.2 Pwrpas adolygu'r cynllun eleni oedd gwneud yn siwr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn o ystyried y cyd-destun o galedi ariannol rydym yn gweithio ynddo. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor a'r sir ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf.

1.3 Mae'r Cynllun Strategol yn gosod meysydd blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod, y sefyllfa rydym yn dymuno ei gweld ar gyfer y meysydd hynny, ac yn disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno. Eleni eto, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Wrth gwrs mae hwn yn oll yng nghyd-destun her enfawr yr arbedion y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu canfod dros y blynyddoedd nesaf.

1.4 Fel rhan o'r adolygiad, ac er mwyn cynnwys barn pobl Gwynedd ynddo, cynhaliwyd cyfres o sesiynau gyda'r cyhoedd ar draws Gwynedd fis Tachwedd 2014 o'r enw Her Gwynedd.

## 2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad

2.1 Mae'r hyn sydd gerbron fel cynllun drafft er sylw'r Cabinet (Atodiad 1), yn gynnyrch misoedd o waith adolygu, ac yn cynrychioli'r newid sydd wedi bod ym mhwyslais y cynllun ers y llynedd. Bydd y pwyslais eleni a hyd at ddiwedd Mawrth 2017 ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd, ac fe fyddwn yn gwneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

2.2 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi y Cynllun Strategol yn unol a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y'i gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn Atodiad 2. Nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw effaith fyddai yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd y broses cynnal asesiad yn parhau wrth i gynigion penodol gael eu datblygu.

## 3.0 Ystyriaethau perthnasol

3.1 Unwaith eto eleni, rydym wedi ceisio bod yn fwy eglur am ein rhesymeg dros fynd i'r afael â rhai o'r materion yn y cynllun gan amlinellu'r sefyllfa bresennol a chyfleu pa sefyllfa rydym eisiau ei gweld.

3.2 Rydym hefyd yn dangos beth yn union rydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa rydym eisiau ei gweld. Mae'r cynllun yn cynnwys prosiectau a fydd yn cyfarch yr her, rhai sydd yn trawsffurfio gwasanaethau ac yn arbed arian, ac eraill lle mae blaenoriaeth glir ar gyfer gwireddu. Mae oes rhai o'r prosiectau yn ymestyn tu hwnt i fywyd y cynllun.

3.3 Un o'r pethau anoddaf ar yr adeg hon o wynebu'r her ariannol yw sicrhau'r capasiti digonol ar gyfer gweithredu ar yr addewidion hyn yn ariannol ac, yn fwy allweddol yn amser aelodau a swyddogion. Mae goblygiadau ariannol posib ynghlwm â rhai o'r ymrwymiadau yn y cynllun ac fe nodir y rheini yn glir fesul prosiect. Tynnir sylw'r Cabinet at y rhain isod:

**Prosiect D2: Prosiect Diogelu Plant a Phobl Ifanc**
Bydd angen buddsoddiad o £60,000 ar gyfer y prosiect hwn. Fe fydd hyn yn cael ei ariannu o'r balansau.

**Prosiect C1: Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith**
Gyda buddsoddiad ychwanegol o £150mil, gellir cwblhau 31 adolygiad erbyn diwedd 2018-19, o'u cymharu â 22 a fyddai'n bosib heb fuddsoddiad ychwanegol. Edrychir ar y posibilrwydd o gywain £150mil o gyllidebau presennol y Cyngor.

**Prosiect C5: Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**
Byddai'r prosiect yn darparu arbedion tebygol o oddeutu £90-£185k y flwyddyn, fodd bynnag, byddai angen £255k unwaith ac am byth i gyflogi adnodd 2 swyddog am gyfnod o ddwy flynedd a tair blynedd. Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried y posibilrwydd o ariannu'r cynllun uchod o'r gronfa Buddsoddi i Arbed.

3.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi, er gwybodaeth, yr hyn sydd wedi digwydd i'r prosiectau a oedd yng Nghynllun Strategol y llynedd.

| **Maes** | **# Prosiect** | **Datblygol** | **# Prosiect 2014-15** | Wedi cwblhau | Aeddfedu | Parhau | Ymgorffori | Gwaith dydd i dydd | Dileu | Newydd | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | 6 | 2 | 8 | 1 | 1 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 | **8** |
| Gofal, Iechyd a Lles | 5 | 5 | 10 | 3 | 0 | 4 | 0 | 3 | 0 | 0 | **10** |
| Yr Economi | 4 | 5 | 9 | 0 | 3 | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | **9** |
| Yr Amgylchedd | 5 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | **5** |
| Cymunedau Cryf | 8 | 4 | 12 | 1 | 2 | 3 | 1 | 4 | 1 | 0 | **12** |
| Diwylliant a Threfniadau busnes y Cyngor | 6 | 2 | 8 | 1 | 0 | 3 | 1 | 3 | 0 | 0 | **8** |
| **CYFANSWM** | **34** | **18** | **52** | 6 | 6 | 17 | 3 | 19 | 1 | 0 | **52** |

## 4.0 Camau nesaf ac amserlen

4.1 O gymeradwyo'r Cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar 9 Gorffennaf 2015.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n amlwg bellach bod yr her y mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf yn un enfawr ac y byddwn yn gorfod wynebu penderfyniadau anodd yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.. Yn y cyd-destun hynny, mae'n fwy pwysig nag erioed ein bod yn eglur am yr hyn yr ydym am ei gyflawni a bod gennym fodd o asesu'r gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud i fywyd trigolion y sir. Rwy'n cymeradwyo'r Cynllun drafft hwn fel ymdrech i wneud hynny.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'n ofyn statudol bod y Cyngor yn cyhoeddi amcanion gwella blynyddol ac mae'r Cynllun Strategol yn cyflawni hynny. Mater i'r Cyngor Llawn ydi mabwysiadu'r Cynllun Strategol ond mae'n rhaid i'r Cabinet gyflwyno ei gynigion a blaenoriaethau er ystyriaeth y Cyngor. Rwy'n nodi hefyd y bu ymgynghori a'r cyhoedd fel rhan o'r adolygaid drwy gyfrwng Her Gwynedd.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Cyflwynir sylwadau ar lafar yn y cyfarfod .

**Atodiadau**

**Atodiad 1 – Cynllun Strategol drafft Cyngor Gwynedd 2015-16**
**Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb**